Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Llysoedd Goruchwylio Dwys

## Canllaw Mynegi Diddordeb

**Rhagymadrodd**

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cefndir i'r Llysoedd Goruchwylio Dwys (ISCs); mae'n cynnwys meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Llysoedd Goruchwylio Dwys ac adran Cwestiynau Cyffredin i gynorthwyo gyda chwblhau'r ffurflen gais Mynegi Diddordeb.

Cafodd y model ISC ei lansio ym mis Mehefin 2023 i brofi dull o ddatrys problemau drwy dargedu anghenion cymhleth troseddwyr, gyda'r nod o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol sydd wedi dangos bod y dull hwn yn gallu lleihau aildroseddu yn effeithiol.

Dangosodd yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, dan arweiniad David Gauke, effaith troseddu parhaus ar ddioddefwyr a chymunedau. Mae maint y broblem yn sylweddol, ac argymhellodd yr adolygiad y gallai ymyrraeth gymunedol strwythuredig a dwys fod yn fwy effeithiol i annog troseddwyr parhaus i roi'r gorau i droseddu. O ganlyniad, argymhellwyd sefydlu'r Llysoedd Goruchwylio Dwys i fynd i'r afael â throseddu parhaus.

Yn ei datganiad ar 22 Mai, derbyniodd yr Arglwydd Ganghellor yr argymhelliad hwn a chytunodd i ehangu'r cynllun peilot fel rhan o'i diwygiadau dedfrydu arwyddocaol.

Felly, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi lansio ymarfer Mynegi Diddordeb i asesu diddordeb gweithredol ledled Cymru a Lloegr ar gyfer llysoedd penodol i'w hystyried fel safleoedd pellach. Bydd y broses hon yn llywio camau nesaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth gynhyrchu cynllun gweithredu i sicrhau digon o allu ar draws yr holl bartneriaid cyflenwi.

Mae'r Llysoedd Goruchwylio Dwys yn darparu dewis amgen cadarn yn lle carcharu, gan ddefnyddio dedfrydau cymunedol uwch i dynnu'r rhai sydd mewn perygl o gael dedfryd o garchar o ddwy flynedd yn y Llys y Goron, a dedfryd o ddeuddeg mis yn y Llys Ynadon, i ffwrdd o'r carchar.

I gyflawni hyn, Llysoedd Goruchwylio Dwys yw'r cynllun peilot cyntaf yn y DU i ddefnyddio darpariaethau deddfwriaethol i ymgorffori amrywiaeth o elfennau datrys problemau. Mae diwygiadau i Ddeddf Ddedfrydu 2020, a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022, yn galluogi llysoedd a ddewiswyd fel safleoedd peilot i dreialu elfennau craidd datrys problemau, sy'n cynnwys:

- Bydd gwrandawiadau adolygu rheolaidd ynghlwm â phob gorchymyn cymunedol a phob gorchymyn dedfryd ohiriedig,
- Gallu barnwrol i gychwyn achosion torri amodau,
- Y gallu i'r llysoedd osod sancsiynau carchar byr am dorri amodau o hyd at 28 diwrnod, hyd at uchafswm o 3 gwaith dros gyfnod y gorchymyn, a
- Ehangu profi cyffuriau y tu hwnt i'r Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau drwy ofyniad profi cyffuriau ar wahân.

Ar hyn o bryd mae pedwar Llys Goruchwylio Dwys: tri safle camddefnyddio sylweddau yn Llysoedd y Goron Bryste, Lerpwl a Teesside, ac un safle ISC i fenywod yn Llys Ynadon Birmingham.

Nod y model camddefnyddio sylweddau yw:

- lleihau nifer ac amlder aildroseddu
- lleihau'r defnydd o sylweddau anghyfreithlon / yfed problemus a hwyluso adferiad
- cynyddu atgyfeiriadau at raglenni triniaeth a chefnogaeth, o gymharu â phrosesau a gwarediadau llys safonol, yn enwedig ar gyfer troseddwyr sy'n aildroseddu a throseddwyr parhaus.

Nod y model troseddwyr benywaidd yw:

- darparu dewis amgen yn lle dedfrydau o garchar byrion, o ystyried y gyfran uchel o droseddwyr benywaidd sy'n cael dedfrydau o garchar byrion,
- lleihau nifer ac amlder aildroseddu,
- gwella iechyd a lles,
- gwella'r gynhaliaeth o berthnasoedd teuluol, o gymharu â phrosesau a gwarediadau llys safonol, ar gyfer troseddwyr benywaidd sy'n agored i niwed.

Mae'r dull uchod bellach yn cael ei ddatblygu ymhellach i fynd i'r afael â'r her o droseddu parhaus. Yn fras, bydd y model yn ceisio:

- lleihau nifer ac amlder aildroseddu gan droseddwyr aml neu droseddwyr parhaus
- atal aildroseddu yn y dyfodol gan y garfan sydd mewn perygl o ddod yn droseddwyr aml neu barhaus,
- mynd i'r afael ag anghenion troseddol sylfaenol sy'n gyrru troseddu aml neu droseddu parhaus.

Mae canfyddiadau gwerthuso cynnar yn dangos bod troseddwyr yn cydymffurfio â'u gofynion dedfryd a'r gefnogaeth adsefydlu a ddarperir hyd yma. Mae gwerthusiad interim o'r broses, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025, ar gael yma: [Adroddiad interim gwerthuso'r peilot Llysoedd Goruchwylio Dwys]. Mae'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol yn awgrymu y gellir defnyddio'r ymyrraeth strwythuredig a dwys a ddarperir gan y llysoedd hyn i annog troseddwyr parhaus i roi'r gorau i droseddu.

Bydd y broses Mynegi Diddordeb yn weithredol tan 17 Hydref 2025. Gellir cyflwyno ceisiadau i iscs@justice.gov.uk. Bydd y broses Mynegi Diddordeb yn cael ei hysbysebu'n eang, gan gynnwys drwy Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF). Mae noddwr o'r ddwy asiantaeth yn ofynnol yn y broses Mynegi Diddordeb.

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dechrau ymgysylltu â'r ardaloedd sydd â diddordeb yn ystod Haf 2025 i drafod eu mynegiant o ddiddordeb. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried y canlynol wrth ddewis safleoedd peilot (noder y daw'r wybodaeth hon o'r ffurflenni cais ac o ddata a gwybodaeth ehangach y Llywodraeth):

1. Cefnogaeth partneriaid cyfiawnder lleol i dreialu'r peilot, e.e. y Gwasanaeth Prawf, GLITEF, Barnwyr, Ynadon, yr Heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a

Throseddu, darparwyr gwasanaethau triniaeth, awdurdodau lleol, a darparwyr gwasanaethau i fenywod;
2. Argaeledd gwasanaethau cefnogi;
3. Anghenion y troseddwyr o fewn yr ardal gyfiawnder, e.e. patrwm y gwasanaethau y gofynnir amdanynt fwyaf;
4. Lefelau troseddu parhaus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol,
5. Amcangyfrif o nifer y troseddwyr ar gyfer y garfan o ddiddordeb (fesul mis);
6. Trefniadau presennol yn y llys, e.e. a oes cynllun peilot neu fentrau eraill a allai wella neu rwystro'r cynllun peilot Llysoedd Goruchwylio Dwys, neu effeithio ar y gwerthusiad;
7. Niferoedd o ran yr ôl-groniad o achosion llys; a
8. Adnoddau gweithredol.

Disgwylir y bydd y rhestr fer yn cael ei chadarnhau erbyn y Gaeaf 2025. Ar ôl hyn, bydd argymhellion yn cael eu gwneud i'r Gweinidogion a'r Uwch Farnwr Llywyddol (SPJ). Yn y pen draw, Yr Uwch Farnwr Llywyddol fydd yn penderfynu ar y safleoedd yn y dyfodol, ar ôl derbyn argymhelliad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda chefnogaeth GLITEF ac HMPPS, yn seiliedig ar asesiad o'r wybodaeth a ddarperir yn y cais Mynegi Diddordeb.

Anelwn i ddechrau'r gwaith gweithredu ar gyfer y safleoedd peilot newydd yn y Gaeaf 2025, gyda'r nod o lansio rhagor o gynlluniau peilot yn y Gwanwyn 2026. Rydym yn ystyried dull cam wrth gam, ac rydym yn croesawu awgrymiadau gan safleoedd ar bryd fyddai'n well ganddynt lansio.

Cyhoeddwyd yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol a'r Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol yn ddiweddar, a gwnaethant argymhellion arwyddocaol ar gyfer newid ar draws y system cyfiawnder troseddol. O ganlyniad, efallai y bydd angen i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wneud rhai newidiadau i fodel y Llysoedd Goruchwylio Dwys dros y misoedd nesaf i adlewyrchu newidiadau ehangach i bolisi neu ddeddfwriaeth. Mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn gyfredol ar adeg ei gyhoeddi, ac fe fydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyfathrebu i'r safleoedd presennol ac i ddarpar safleoedd y Llysoedd Goruchwylio Dwys cyn gynted ag y byddant yn hysbys.

# Y Model Llysoedd Goruchwylio Dwys

## Trosolwg

Bydd y peilot ISC yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol troseddwyr ac yn targedu gwreiddiau ymddygiad troseddol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i'r model hwn, gyda thîm amlasiantaethol yn cydweithio o'r eiliad y caiff rhywun ei adnabod fel rhywun all fod yn addas ar gyfer y peilot. Mae'r model yn un dwys ar gyfer bobl ar brawf, ac mae'n ddibynnol ar farnwriaeth ymroddedig, ynghyd â defnyddio gwasanaethau presennol fel triniaeth cyffuriau ac alcohol, a phartneriaethau cryf rhwng HMPPS, GLITEF,

darparwyr triniaeth cyffuriau ac alcohol, yr Heddlu a sefydliadau'r trydydd sector. Bwriedir i'r dull amlasiantaethol hwn, a fydd yn cael ei hwyluso gan gydlynydd y llys (rôl unigryw a ariennir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder), fod ar waith o'r pwynt o adnabod unigolyn hyd at gwblhau'r gorchymyn.

Mae adroddiadau cyn-dedfrydu (PSRs) yn cael eu cwblhau gan y gwasanaeth prawf gyda mewnbwn gan asiantaethau perthnasol fel darparwyr triniaeth, er mwyn i'r gwasanaeth prawf wneud argymhelliad ar gyfer dedfrydu o dan y model hwn, sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn. O fewn y llysoedd ISC sy'n canolbwyntio ar fenywod, caiff adroddiadau cyn-dedfrydu eu cwblhau ar y cyd rhwng y gwasanaeth prawf a gwasanaethau i fenywod, i sicrhau bod y gefnogaeth yn un sy'n sensitif ac yn wybodus o ran rhywedd a thrawma.

Pan fydd troseddwr yn cael ei ddedfrydu, mae'n rhaid iddynt fynychu adolygiadau rheolaidd gan farnwr, lle bydd barnwr yn adolygu cynnydd, yn rhoi adborth a rhoi cymhellion a sancsiynau ar waith fel sy'n briodol yn ôl lefelau cydymffurfio.

Sail y model yw system raddol o gymhellion (i annog cydymffurfio), galluogi (i hwyluso ymgysylltiad) a sancsiynau (i ymateb i beidio â chydymffurfio) – fframwaith i gynyddu cymhelliant unigolyn i gydymffurfio. Mae enghreifftiau yn cynnwys atgyfnerthu cadarnhaol mewn gwrandawiadau adolygu, lleihau amlder profion cyffuriau neu adolygiadau cyffuriau, neu mewn rhai achosion, dileu'r gorchymyn yn gynnar ar y sail bod cynnydd da wedi bod. Os nad yw troseddwr yn cydymffurfio, gellir rhoi sancsiynau ar waith a'u cynyddu neu eu gostwng yn ddibynnol ar ymddygiad y troseddwr. Yn benodol i'r model hwn, gall barnwyr osod sancsiwn carchar byr hyd at dair gwaith yn ystod gorchymyn am ddiffyg cydymffurfio.

Ar ôl cwblhau'r ddedfryd ISC, mae'r gwrandawiad adolygu olaf yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y troseddwr, yn debyg i'r "seremonïau graddio" a gynhelir mewn dulliau datrys problemau eraill. Mae'r gwrandawiad olaf hwn wedi'i deilwra i'r unigolyn ac fe all eu teulu a ffrindiau, ynghyd ag aelodau craidd tîm yr ISC, fod yn bresennol.

## Meini Prawf Cymhwysedd

Bu'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol yn trafod rôl Llysoedd Goruchwylio Dwys wrth dorri'r "drws cylchol" o aildroseddu parhaus ac argymhellodd ehangu'r dull i fynd i'r afael â throseddu parhaus. Mae gan droseddwyr parhaus anghenion troseddol sylfaenol a chymhleth, ac sy'n fwy difrifol, na throseddwyr eraill. Gwyddom, er enghraifft, fod gan 74% o droseddwyr parhaus anghenion camddefnyddio cyffuriau, o'i gymharu â 53% o droseddwyr nad ydynt yn droseddwyr parhaus. Mae troseddwyr parhaus hefyd yn aml yn profi problemau gyda'u ffordd o feddwl a'u hymddygiad, eu hagweddau, eu ffordd o fyw a'u perthnasau. Sefydlwyd y llysoedd hyn i dargedu troseddwyr ag anghenion sylfaenol cymhleth, gyda'r nod o fynd i'r afael â gwreiddiau troseddu. Mae hyn yn golygu bod y model hwn mewn sefyllfa dda i dargedu'r anghenion hynny sy'n arwain at droseddu parhaus, yn cynnwys troseddwyr parhaus presennol a'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn droseddwyr parhaus. Felly, gofynnir i safleoedd ISC newydd ganolbwyntio ar un neu'r ddau o'r grwpiau canlynol:

- Troseddwyr sydd wedi cyflawni sawl trosedd o'r blaen; a/neu

- Troseddwyr sydd â llu o anghenion troseddol sy’n eu rhoi mewn perygl o ddod yn droseddwyr parhaus yn y dyfodol

O fewn hyn, mae posibilrwydd i safleoedd dargedu carfan benodol o droseddwyr gydag anghenion. Byddwn yn croesawu ceisiadau sy’n cyd-fynd â’n carfannau presennol (troseddwyr â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu droseddwyr benywaidd ag anghenion cymhleth lluosog), yn ogystal â charfannau newydd. Anogir cydweithio â phartneriaid cyfiawnder lleol i nodi anghenion penodol a allai fod yn gyrru troseddu parhaus yn eich ardal chi.

Os yw’ch cais yn llwyddiannus, byddwn yn cydweithio â chi i gytuno ar feini prawf cymhwysedd penodol ar gyfer eich carfan i sicrhau cysondeb ar draws ardaloedd.

## Cymhwysedd Cyffredinol i’r Peilot ac Eithriadau

Rhaid bodloni’r meini prawf canlynol er mwyn bod yn gymwys i gael dedfryd Llys Goruchwylio Dwys:

- Bod yn 18 oed neu’n hŷn ar ddiwrnod yr euogfarn;
- Bod â chymhelliant i fynd i’r afael â’u problemau ac arddangos parodrwydd i gymryd rhan yn y rhaglen. Nid yw cofnodi ple euog yn angenrheidiol, ond mae’n bwysig dangos parodrwydd i gydymffurfio.
- Cydsynio i rannu gwybodaeth bersonol rhwng yr asiantaethau/cyrff sy’n cymryd rhan. Rhaid iddynt fod wedi rhoi caniatâd i dderbyn triniaeth ac ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth.

Mae eithriadau’n berthnasol i’r ddau grŵp – troseddwyr sy’n camddefnyddio sylweddau a throseddwyr benywaidd - ni chaniateir troseddwyr sydd wedi eu cael yn euog o droseddau arfau ymosodol, troseddau arfau tanio neu droseddau rhywiol.

Dylid ystyried hefyd hanes troseddu blaenorol, a ph’un ai yw’r unigolyn yn droseddwr sydd wedi troseddu tro ar ôl thro.

## Rôl y Llysoedd Goruchwylio Dwys a’r Asiantaethau Partner

Mae’r partneriaethau allweddol sy’n rhan o’r Llysoedd Goruchwylio Dwys yn cynnwys:

### Y Farnwriaeth

Bydd y Barnwr (neu’r Barnwyr) yn gyfrifol am ddedfrydu diffynyddion sydd addas i fod yn rhan o’r cynllun peilot ac am gynnal adolygiadau, a fydd yn cynnwys adolygu cynnydd unigolion drwy gydol eu gorchmynion ar ôl y ddedfryd, darparu adborth rheolaidd a rhoi cymhellion neu sancsiynau ar waith fel sy’n briodol. Mae parhad barnwrol yn hanfodol i lwyddiant llysoedd datrys problemau.

**Cydlynydd y Llys**

Bydd un cydlynydd llys yn goruchwylio gweithrediad y peilot, yn cefnogi staff a chyfranogwyr, ac yn cynnal cyfathrebu effeithiol rhwng y tîm gweithredol a'r tîm prosiect (pencadlys).

**Staff y Llys (GLITEF)**

Bydd staff y llys yn cynorthwyo i restru ac adnabod achosion sy'n addas ar gyfer dedfrydu, adolygiadau a thoriadau, a byddant yn cynnal cysylltiadau agos â Chydlynydd y Llys.

**Y Gwasanaeth Prawf**

Bydd y gwasanaeth prawf yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli pobl ar brawf drwy gydol y peilot. Byddant yn cyflawni elfennau o'r gorchymyn drwy gydweithio amlasiantaethol a nhw fydd y prif gyswllt ar gyfer cyfranogwyr y peilot. Byddant hefyd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad cyn-dedfrydu (PSR), ar y cyd â gwasanaethau cam-drin sylweddau/gwasanaethau i fenywod a darparwyr gwasanaeth perthnasol eraill. Byddant hefyd yn sicrhau bod adroddiadau cynnydd amserol yn cael eu darparu i'r llys, a chynnal cysylltiad agos â'r cyfranogwyr a Chydlynydd y Llys drwy gydol y peilot.

**Darparwyr Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau**

Bydd y darparwyr hyn yn darparu'r elfen triniaeth camddefnyddio sylweddau o'r ddedfryd. Byddant yn gweithio'n agos â'r gwasanaeth prawf i gynhyrchu asesiadau ar y cyd a rhannu gwybodaeth i gefnogi asesiadau risg ac adroddiadau ar gyfer adolygiadau llys. Mae'n ofynnol iddynt gynnig apwyntiadau wythnosol i gynnal dwyster y gorchymyn ISC.

**Gwasanaethau Cymorth i Fenywod**

Bydd darparwyr i fenywod yn penodi gweithwyr allweddol i weithio gyda'r menywod yn y cynllun, gan weithio'n agos gyda'r gwasanaeth prawf i gyflawni'r ddedfryd, cefnogi'r Person ar Brawf a chyfrannu at adroddiadau adolygu.

**Gwasanaethau Cymorth Eraill**

Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- Gwasanaethau iechyd meddwl;
- Yr Heddlu;
- CPS ac amddiffyn;
- Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;
- Cyngor ar faterion ariannol a dyledion;
- Tai; a
- Chefnogaeth deuluol.

Bydd y gwasanaethau hyn yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth prawf i wneud asesiadau, rhannu gwybodaeth, darparu diweddariadau ar gyfer adroddiadau mewn adolygiadau llys, ac fe ddisgwylir iddynt weithredu'n brydlon ar atgyfeiriadau a dderbynnir.

# Cwestiynau Cyffredin

## Y Cynllun Peilot Llysoedd Goruchwylio Dwys

### 1. A oes modd gweld Llys Goruchwylio Dwys (ISC) ar waith?

Oes, mae'r tri ISC camddefnyddio sylweddau presennol wedi'u lleoli yn Llys y Goron Bryste, Llys y Goron Lerpwl a Llys y Goron Teesside, a chynhelir y llysoedd dedfrydu a'r llysoedd adolygu mewn llys agored.

Mae'r ISC i Fenywod wedi'i leoli yn Llys Ynadon Birmingham. Dim ond y llys dedfrydu sy'n cael ei gynnal mewn llys agored, bob bore dydd Iau. Cynhelir y llys adolygu y tu allan i'r llys, a gellir trefnu ymweliadau trwy drafod â chydlynydd y llys.

### 2. A yw'r Llysoedd Goruchwylio Dwys yn gweithio?

Mae tystiolaeth gynnar yn dangos bod troseddwyr yn ymgysylltu'n dda gyda'r llys – ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad Gwerthuso Interim, nid oedd dros dri chwarter o'r troseddwyr wedi torri eu gorchymyn. Profodd troseddwyr â hanes helaeth o gamddefnyddio cyffuriau yn negyddol am gyffuriau ddwy ran o dair o'r amser, ac roedd perthynas gadarnhaol rhwng barnwyr a throseddwyr y llysoedd ISC, a oedd yn sbardun i'r troseddwyr ymfalchïo yn eu cynnydd ac i beidio â siomi'r barnwr.

Er bod y peilot yn dangos arwyddion calonogol cynnar, mae'n destun gwerthusiadau effaith ac economaidd llawn, a fydd yn darparu tystiolaeth o p'un a all y llysoedd leihau aildroseddu a darparu gwerth am arian. Bydd data pellach ar gael yn yr Haf 2025, ond ni fydd y dadansoddiad llawn yn cael ei gwblhau tan 2028.

### 3. A fydd cyllid ychwanegol ar gael i weithredu'r Llysoedd Goruchwylio Dwys?

Ar hyn o bryd, caiff y llysoedd eu hariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys adnoddau pwrpasol i'r Gwasanaeth Prawf, cydlynydd y llys, unrhyw daliadau cyd-leoli ar gyfer canolfannau menywod a'r gwasanaeth prawf i gydweithio lle bo'n berthnasol, gwariant nad yw'n gyflog a chronfa'r Llysoedd Goruchwylio Dwys (cronfa fach i safleoedd ei defnyddio i annog neu alluogi llwyddiant unigolyn). Nid oes cyllid pellach ar gyfer darparwyr triniaeth.

### 4. Pa grŵp o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer y Llys Goruchwylio Dwys?

Mae'r broses Mynegi Diddordeb hon yn gwahodd ardaloedd i gyflwyno ceisiadau ar gyfer y garfannau o'u dewis, ar sail yr anghenion sy'n gyrru troseddu parhaus yn eu

hardal leol. Oherwydd y dull hwn, byddwn yn gweithio gyda'r ardaloedd lleol i ddiffinio'r meini prawf cymhwysedd cywir unwaith y bydd cais yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rhestrir y meini prawf trosfwaol ar dudalen 6.

Bydd ymarferwyr prawf sy'n cwblhau adroddiad cyn-dedfrydu yn asesu a fyddai'r troseddwr yn addas ar gyfer cynnig gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig yn seiliedig ar y model hwn, a bydd unrhyw asesiad terfynol yn ddibynnol ar ddisgresiwn y barnwr.

## 5. Pa ddeddfwriaeth sy'n sail i'r model ISC?

Cyflwynwyd diwygiadau i Ddeddf Dedfrydu 2020 gan Ran 7 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022, sy'n caniatáu i'r llysoedd a ddewisir fel safleoedd peilot ddefnyddio pwerau ychwanegol ar gyfer Gorchmynion Cymunedol a Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig. Mae hyn yn cynnwys:

- y gallu i osod gofynion profi cyffuriau annibynnol fel rhan o Orchymyn Dedfryd Ohiriedig neu Orchymyn Cymunedol lle nad yw'r unigolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau (DRR), neu lle ystyrir ei bod yn briodol cael cyfuniad o'r DRR a'r profi am gyffuriau (h.y. ar gyfer gorchmynion cymunedol hwy)
- y gallu i atodi adolygiadau i bob Gorchymyn Cymunedol a Gorchymyn Dedfryd Ohiriedig, y gellir eu cynyddu neu eu lleihau yn ôl cydymffurfiaeth a chynnydd yr unigolyn
- y gallu i'r barnwr gychwyn gwrandawiadau torri amodau mewn adolygiad lle ystyrir bod yr unigolyn wedi torri amodau ei orchymyn
- y gallu i osod sancsiwn carchar byr hyd at 28 diwrnod, uchafswm o dair gwaith dros gyfnod y gorchymyn, am beidio â chydymffurfio. Ar ôl cwblhau'r sancsiwn, caiff y troseddwr ddychwelyd i'w orchymyn ISC presennol.

## 6. Pa broses llywodraethu mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn eu gweithredu yn y safleoedd ISC?

Mae tîm polisi ISC y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydweithio â'r Fainc, GLITEF, HMPPS a phartneriaid cyfiawnder eraill, gan gynnwys asiantaethau partner, i sicrhau bod y peilot yn rhedeg yn esmwyth. Mae'n ofynnol i bob safle ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r tîm a chael cyfarfodydd strategol rheolaidd.

## 7. Pa gefnogaeth a gynigir i wasanaethau prawf a'r llysoedd i weithredu'r cynlluniau peilot?

Bydd staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMPPS HQ yn gweithio gyda'r safleoedd peilot i nodi'r gefnogaeth sydd ei angen i gynorthwyo'r gweithrediad. Mae hyfforddiant a chanllawiau ar gael i sicrhau bod y safleoedd peilot yn gwbl barod. Yn ychwanegol at hyn, bydd amserlen o ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol yn cael ei drefnu er mwyn i holl ddefnyddwyr y llysoedd fod yn llawn gwybodaeth.

8. **Os caiff ein hardal ei dewis ar gyfer Llys Goruchwylio Dwys, am ba hyd y bydd yn rhedeg?**

Bydd y cynllun yn rhedeg am o leiaf 18 mis. Bydd unrhyw estyniad yn cael ei drafod â'r safleoedd unigol ar yr adeg priodol.

9. **Os caiff fy llys ei ddewis, a fyddwn yn cael ein gwerthuso?**

Mae gofyniad ac ymrwymiad i bob llys ISC ddarparu gwybodaeth reoli rheolaidd i'r tîm cymorth dadansoddi. Mae'r data hwn yn rhan hanfodol o'n strategaeth gwerthuso ar gyfer y llysoedd ISC. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, nifer yr achosion, dedfrydu achosion ISC, cydymffurfiaeth â gofynion dedfryd a chanlyniadau gorchmynion ISC. Disgwylir i'r safleoedd ISC weithio'n agos â'r tîm gwerthuso a sicrhau bod data cadarn yn cael ei gasglu a'i rannu. Mae'r wybodaeth yn hollbwysig ar gyfer mynd i'r afael â heriau cyflawni ac i lywio unrhyw benderfyniadau polisi pellach. Mae'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gwerthuso ychwanegol ar gyfer unrhyw lysoedd ISC newydd ar y gweill. Disgwylir i gynigwyr llwyddiannus ddangos cefnogaeth glir ar gyfer y gwerthusiad a'r gallu i ddarparu data amserol a chywir i'w gyfarwyddo. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth lleol i sicrhau data i'w ddefnyddio yn unrhyw werthusiadau o'r effaith neu werthusiadau economaidd.

## Gweithredu'r Model

1. **Sut caiff achosion sy'n bodloni meini prawf yr ISC eu hadnabod?**

Dylid cynllunio a gweithredu'r broses adnabod yn lleol, gan ystyried cryfder partneriaethau presennol. Gall timau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Phencadlys HMPPS helpu i ddatblygu'r broses fwyaf addas os dewisir eich safle i weithredu llys ISC.

2. **Sut bydd achosion yn cael eu rhestru?**

Dylid rhestru achosion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun gerbron barnwr sy'n gyfarwydd â phroses yr ISC (fel arfer, bydd hyn yn farnwr neu farnwyr dynodedig yr ISC). Dylai cydlynydd y llys hwyluso'r broses o restru achosion sy'n briodol ar gyfer llys ISC.

3. **Sut mae'r adroddiad cyn-dedfrydu yn gweithio yn yr ISC?**

Mae'r broses o lunio adroddiad cyn-dedfrydu (PSR) yn wahanol i'r broses 'busnes fel arfer'. Ymarferwyr Prawf sy'n gweithio ar y peilot ISC sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r adroddiad, ac yn aml bydd y rhain yn adroddiadau ar y cyd â gweithwyr triniaeth/gwasanaethau i fenywod. Bydd yr adroddiad yn rhoi argymhelliad proffesiynol clir ar addasrwydd unigolyn ar gyfer y peilot, gan ddilyn y Fframwaith Cynigion Effeithiol. Os bernir bod yr unigolyn yn addas ar gyfer yr ISC a bod dedfryd ISC yn cael ei osod, bydd yr ymarferydd prawf sy'n gyfrifol am yr adroddiad yn rheoli'r gorchymyn ar ôl dedfrydu.

## 4. Sut bydd adolygiadau ISC yn cael eu cynnal?

Bydd unigolion sy'n rhan o'r cynllun ISC yn mynychu gwrandawiadau adolygu rheolaidd fel rhan o'u gorchymyn. Dylai'r adolygiadau ISC geisio bod yn llai ffurfiol i annog y datblygiad o berthynas a dealltwriaeth rhwng y Barnwr a'r unigolyn, gan greu amgylchedd llai gwrthwynebus ac annog unigolion i ymgysylltu'n well â'r broses llys.

Mae'r berthynas rhwng yr unigolyn a'r barnwr yn ganolog i'r model ISC, felly dylai'r un barnwr fod yn gyfrifol am achos yr unigolyn drwy gydol cyfnod eu gorchymyn. Disgwylir y gall yr adolygiadau cyntaf gael eu cynnal bob pythefnos, ac wedyn yn fisol, yn ôl disgresiwn y Barnwr. Gellir addasu amlder y gwrandawiadau yn ôl lefel cydymffurfiaeth a chynnydd yr unigolyn dros amser.

## 5. A oes angen adroddiadau cynnydd ar gyfer adolygiadau?

Oes. Bydd cyfarfodydd wythnosol y tîm yn cael eu cynnal cyn adolygiadau i alluogi'r holl randdeiliaid perthnasol i gyfrannu at yr adroddiad. Cynhelir y cyfarfod amlasiantaethol cyn y gwrandawiad i sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn gallu cyfrannu, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol.

## 6. Beth yw'r gofyniad ar wahân ar gyfer profi cyffuriau?

Bydd y gofyniad ar wahân ar gyfer profi cyffuriau yn yr ISC yn galluogi staff prawf i brofi troseddwyr dan eu goruchwyliaeth yn rheolaidd, ac felly eu galluogi i reoli risg ac anghenion.

Gellir dedfrydu troseddwr i ofyniad adsefydlu cyffuriau (DRR) ac i ofyniad profi am gyffuriau. Er enghraifft, gall y llys orchymyn DRR am gyfnod o 6 mis a dilyn hyn â gofyniad profi cyffuriau am 6 mis arall. Mae hyn yn cefnogi'r broses o fonitro ymataliad y troseddwr.

## 7. Sut mae'r sancsiwn carchar byr yn gweithio?

Mae'r sancsiwn carchar byr ar gael i'r Barnwr pan fydd troseddwr yn torri amodau eu gorchymyn ISC. Bydd adnoddau sancsiynau arferol y llys yn parhau i fod ar gael i'r llysoedd, megis cynyddu nifer y diwrnodau RAR neu oriau gwaith di-dâl, neu osod dirwy ariannol.

Mae'r sancsiwn byr yn rhoi cyfle i'r troseddwr barhau â'u gorchymyn ar ôl i gyfnod y sancsiwn ddod i ben. Mae'r sancsiwn hwn wedi'i ddylunio i roi dewis ychwanegol ar ochr uwch y raddfa, fel dewis amgen yn lle diddymu a dedfrydu eto neu roi eu dedfryd o garchar gohiriedig ar waith, a fyddai'n dod â'r gorchymyn cymunedol neu'r gorchymyn gohiriedig, ac unrhyw ofynion triniaeth cysylltiedig, i ben.

## Cyflwyno’r Ffurflen Mynegi Diddordeb

1. **A all un cais gynnwys mwy nag un carfan o ddiddordeb?**

Mae’n bosib gwneud cais ar gyfer mwy nac un carfan ar yr un ffurflen.

2. **Beth fydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei wneud gyda’r wybodaeth a beth yw’r camau nesaf wrth ddewis y cynllun peilot?**

Ni fydd y ffurflenni wedi’u cwblhau’n cael eu rhannu’n gyhoeddus a bydd yn cael eu trin fel gwybodaeth sensitif swyddogol.

Bydd y broses ddethol a gweithredu yn cynnwys mewnbwn gan dimau canolog GLITEF/HMPPS a gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder rannu ceisiadau ag arweinwyr o fewn y sefydliadau hyn. Gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd rannu’r ceisiadau hyn gyda’r farnwriaeth.

Bydd y tîm polisi’n gweithio gydag arbenigwyr i adolygu ceisiadau yn erbyn y meini prawf, asesu addasrwydd a chysylltu â’r ymgeiswyr Mynegi Diddordeb os bydd angen gwybodaeth bellach.

Byddwn yn anelu at lunio rhestr fer o ddarpar safleoedd a hysbysu ymgeiswyr yn y Gaeaf 2025. Bydd swyddogion MoJ yn trefnu ymgysylltu pellach gyda safleoedd peilot llwyddiannus cyn y dyddiad dethol ffurfiol.

3. **Beth sydd angen ei gynnwys yn natganiad gweledigaeth y Barnwr?**

Mae angen i’r datganiad gynnwys eu barn ar y budd y gallai’r ISC ei ddarparu yn yr ardal gyfiawnder lleol, a p’un a fyddai monitro barnwrol rheolaidd yn gweithio o fewn y llys sy’n gwneud y cais.

4. **A all cais gael ei gyflwyno heb ddatganiad gweledigaeth y Barnwr?**

Na. Mae angen cefnogaeth y Barnwr yn y llys sy’n gwneud cais i weithredu’r cynllun, felly ni allwn dderbyn cais mynegi diddordeb heb eu mewnbwn.

5. **Beth sydd angen ei gynnwys yn natganiad gweledigaeth sefydliad trydydd sector?**

Bydd yn ofynnol i’r datganiad gynnwys sut y gall y sefydliad gefnogi cyflwyno’r model ISC yn ardal leol y llys sy’n gwneud cais.

6. **A fydd cais Mynegi Diddordeb hwyr yn cael ei ystyried?**

Efallai na fydd cais hwyr yn cael ei ystyried. Mae swyddogion MoJ yn caniatáu tua 8 wythnos i ardaloedd lleol ystyried a pharatoi cais Mynegi Diddordeb. Yna bydd swyddogion MoJ angen amser sylweddol i asesu'r ymatebion HYN a datblygu'r camau nesaf ar gyfer gweithredu.

### 7. Beth os oes gan rhai partneriaid cyfiawnder neu bartneriaid amlasiantaethol ddiddordeb ond bod rhai eraill ddim yn gefnogol ar hyn o bryd?

Rydym yn cydnabod y bydd gan bartneriaid cyfiawnder ac asiantaethau partner eraill gwahanol farnau ac anogwn, lle bo modd, i ymgeiswyr nodi unrhyw ddatganiadau o gefnogaeth neu feysydd sy'n destun pryder yn eu cais. Mae'r model ISC yn dibynnu ar gydweithio rhwng partneriaid cyfiawnder ac asiantaethau partner ac mae hyn yn elfen graidd o'r meini prawf cymhwysedd.

Os ceir anhawster yn cael cefnogaeth gan bartneriaid cyfiawnder ac asiantaethau partner oherwydd amser neu adnoddau prin ar hyn o bryd, ond bod diddordeb yn y llys yn cymryd rhan yn y dyfodol, dylid nodi hyn gan y gall fod cyfleoedd pellach i gyflwyno safleoedd newydd yn y dyfodol.

### 8. Pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cais mynegi diddordeb?

Gofynnwn i bob cais gynnwys cyswllt allweddol o HMPPS a GLITEF y gellir cysylltu â nhw os bydd angen gwybodaeth bellach. Gall y partneriaid benderfynu ymysg ei gilydd pa sefydliad fydd yn cyflwyno'r cais. Cyn cyflwyno'r cais, rhaid sicrhau ei fod yn cael ei lofnodi gan reolwr uwch neu'r Pennaeth Gweithrediadau.

### 9. Sut bydd ceisiadau'n cael eu hasesu?

Mae ein gofynion craidd wedi'u nodi uchod ar dudalennau 3 a 4. Disgwylir y bydd y rhestr fer yn barod erbyn y Gaeaf 2025, ac yna bydd argymhellion yn cael eu gwneud i Weinidogion a'r SPJ, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

### 10. Pa mor fuan y gellir rhoi mwy o safleoedd ar waith?

Os yw'ch cais yn llwyddiannus byddwn yn gweithio gyda chi i gytuno ar ddyddiad lansio addas. Disgwylir y bydd safleoedd yn dechrau lansio o'r Gwanwyn 2026 ymlaen, ond disgwylir lansiad fesul cam ac nid ydym yn disgwyl y bydd pob safle yn barod erbyn hynny.

### 11. Pryd fyddwn yn cael gwybod os yw ein hardal wedi'i dewis ar gyfer y peilot ISC?

Ein nod yw hysbysu'r rhai sydd wedi gwneud cais i gymryd rhan yn y cynllun peilot ISC yn y Gaeaf 2025.

### 12. Sut i gyflwyno'r cais Mynegi Diddordeb?

Cyflwynwch y cais i iscs@justice.gov.uk a chopïwch unrhyw randdeiliaid sy'n cefnogi'r cais yn y neges. Dychwelwch y cais mynegi diddordeb erbyn 17 Hydref

2025. Os oes gennych gwestiynau cyn cyflwyno'ch cais, cysylltwch â'r tîm yn y cyfeiriad e-bost uchod.